# Ymddygiadau Heriol: Atal, Lleihau a Disodli

## GWEITHDY AR-LEIN
## Dydd Iau, 13 Ionawr 2022

Bydd y gweithdy o 9am tan 4.30pm

**COST: £15.00 ar gyfer pob rhiant / gweithiwr proffesiynol sy'n mynychu'r cwrs hwn.**

**Problemau ymddygiad yw un o'r pethau mwyaf heriol y byddwn yn eu hwynebu gydag awtistiaeth ac anableddau datblygiadol eraill.**

Gyda llawer o heriau ymddygiadol, y peth cyntaf a wnawn yn reddfol yw gofyn: "Sut mae cael hyn i stopio?" Mae'r cwestiwn yma yn gallu arwain at wneud rhywbeth yn y tymor byr yn hytrach na datblygu datrysiadau tymor hir. Rydym ni yn Pyramid yn cydnabod pwysigrwydd datblygu'r sgiliau hanfodol y mae ar ein dysgwyr eu hangen i allu disodli ymddygiadau annymunol gan roi yn eu lle weithredoedd sydd yr un mor effeithiol o'u safbwynt nhw. Gan ddefnyddio egwyddorion dadansoddi ymddygiad cymhwysol, rydym yn pwysleisio defnyddio atgyfnerthiad systematig a hyfforddiant mewn gweithgareddau swyddogaethol a sgiliau cyfathrebu, er mwyn gweld llai o'r ymddygiadau a dargedir. Mae ein gweithdai a'n cefnogaeth ar y safle yn cynnig y cymorth y mae arnoch ei angen er mwyn atal ymddygiadau sy'n amhriodol mewn cyd-destun penodol rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac er mwyn ymateb yn systematig i'w lleihau pan fyddant yn digwydd.

Hyfforddiant rhyngweithiol iawn yw hwn, sy'n cynnig strategaethau i gael hyd i ffyrdd o gwmpas heriau ymddygiadol gyda dysgwyr o bob oed, mewn unrhyw amgylchedd. Gan ddefnyddio astudiaethau achos ac enghreifftiau o'ch lleoliad chi, byddwn yn dechrau'r gweithdy drwy amlygu cysyniadau allweddol dadansoddi ymddygiad cymhwysol, a fydd yn eich helpu chi i ddeall pam y mae ymddygiadau heriol yn digwydd. Byddwn yn trafod pwysigrwydd cynllunio amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu, yn seiliedig ar fframwaith Ymagwedd Pyramid at Addysg. Y cam nesaf yn y gweithdy yw diffinio ymddygiadau lle mae angen ymyrryd a sefydlu beth yw swyddogaeth yr ymddygiadau hyn. Rhoddir y sgiliau hyn ar waith gan ddefnyddio ein hastudiaethau achos ni ein hunain a'u cymhwyso hefyd i'ch dysgwyr chithau.

Mae ail hanner y gweithdy yn edrych ar strategaethau y gellir eu defnyddio yn rhagweithiol ac yn adweithiol i leihau'r achosion o ymddygiadau heriol sydd i'w gweld yn eich lleoliad. Wrth inni edrych ar bob strategaeth ar gyfer disodli neu leihau ymddygiad, byddwch chi'n cael cyfle i ystyried a fydd y strategaeth dan sylw yn addas ar gyfer eich dysgwr chi a pha gamau y dylech eu cymryd wedi i chi ddychwelyd i'ch lleoliad. Mae'r gweithdy yn gorffen trwy ddangos sut y gallwch chi a'ch tîm arfarnu a monitro effeithiolrwydd eich cynlluniau ymddygiad wrth i chi roi eich strategaethau newydd ar waith.

**Deilliannau a Phrif Fuddiannau:**

- Adolygu egwyddorion sylfaenol Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol
- Dod i wybod pa elfennau sy'n creu amgylchedd dysgu effeithiol: Ymagwedd Pyramid at Addysg - The Pyramid Approach to Education®
- Dod i wybod pa ymddygiadau sy'n galw am ymyrraeth
- Dod i wybod sut i reoli'r ymddygiad o safbwynt ei swyddogaeth
- Datblygu cynllun ymddygiad
- Dod i wybod sut i asesu effeithiolrwydd ymyriadau

**I gael ffurflen er mwyn archebu lle, e-bostiwch Samantha@standnw.org neu ffoniwch y rhif 07570 583 842**

Gwefan: www.standnw.org
Facebook: www.facebook.com/standnwcic
Rhif Cwmni: 11333532
E-bost: Samantha@standnw.org